# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 24 Ebrill 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(126)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Cafodd cwestiynau 2 a 10 a 7 ac 11 eu grwpio.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.18

Gofynnwyd cwestiynau 2 i 12 a 14 i 15. Cafodd cwestiynau 3 a 4 eu grwpio. Tynnwyd cwestiynau 1 a 13 yn ôl.

### 3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.57

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog Iechyd ddatganiad brys ar amseroedd ymateb Gwasanaeth Ambiwlans Cymru?

### Datganiad gan y Llywydd

Cyhoeddodd y Llywydd fod Darren Millar wedi ennill balot yr Aelodau i gyflwyno cynnig ar gyfer deddfwriaeth. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.91, caiff Darren Millar, felly, geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru).

**Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau**

Dechreuodd yr eitem am 15.07

**NDM5217 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Ken Skates (Llafur Cymru).

**NDM5218 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Christine Chapman (Llafur Cymru) a Jenny Rathbone (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Ann Jones (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru), a;

(ii) Christine Chapman (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**NDM5219 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Ann Jones (Llafur Cymru), Keith Davies (Llafur Cymru) a David Rees (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Christine Chapman (Llafur Cymru), Jenny Rathbone (Llafur Cymru) a Julie Morgan (Llafur Cymru), a;

(ii) Ann Jones (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

**NDM5220 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Sandy Mewies (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Gwyn Price (Llafur Cymru).

**NDM5221 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Julie Morgan (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle David Rees (Llafur Cymru) a Keith Davies (Llafur Cymru).

**NDM5222 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd):**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ken Skates (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mick Antoniw (Llafur Cymru).

**Cafodd y cynigion eu grwpio a derbyniwyd y cynnigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.08

**NDM5211 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod effaith y tywydd garw diweddar ar gymunedau gwledig a busnesau yng Nghymru;

2. Yn nodi'r effaith y mae trafnidiaeth wledig a seilwaith cyfathrebu gwael wedi'u cael ar ymdrechion i fynd i'r afael ag amodau tywydd garw;

3. Yn credu bod yn rhaid i strategaeth ymateb i argyfwng Llywodraeth Cymru fod yn effeithiol wrth ymdrin â'r heriau unigryw sy'n wynebu cymunedau gwledig; a

4. Yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried cronfa galedi i gynorthwyo busnesau yr effeithiwyd arnynt gan dywydd garw.

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5212 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod potensial Ynys Môn fel canolfan i ynni a thwf economaidd;

2. Yn croesawu'r cyhoeddiad y bydd Hitachi'n datblygu Horizon Nuclear Power ar safle Wylfa ar Ynys Môn;

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried datblygu cynllun clir i gefnogi datblygiad Ynys Môn fel canolfan ar gyfer cynhyrchu ynni; a

4. Yn credu bod yn rhaid i ddatblygiad ynni niwclear ar Ynys Môn gael ei ategu gan gymorth pellach i gymysgedd cadarn o ynni ledled Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 6 | 5 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## 6. Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.58

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5213 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn gresynu'n ddirfawr at anghydraddoldeb ar sail rhyw a'i fwlch cyflog parhaol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth tymor hir i fynd i'r afael â stereoteipio o ran rhyw.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 14 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.57

## 7. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17.59

**NDM5210 Eluned Parrott (Canol De Cymru):**

Cefnu ar ein Brodyr - Asesu cefnogaeth i Anhwylder Straen Wedi Trawma yng Nghymru.

Dadl am Bersonél Arfog ac Argyfwng yng Nghymru sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma a'r ffyrdd y gall Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Sector Gwirfoddol helpu.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 30 Ebrill 2013**